YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

CORFF CYNRYCHIOLWYR YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE REPRESENTATIVE BODY OF THE CHURCH IN WALES

# GWAREDU BEDYDDFEINI AC ALLORAU

Pwrpas y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth i blwyfi, clerigion ac aelodau Pwyllgor Ymgynghori'r Esgobaeth (DAC) am y broses o waredu bedyddfeini ac allorau diangen. Mae'n trafod eu harwyddocâd hanesyddol, sut mae eu gwarchod fel rhan o adeilad rhestredig ynghyd â'r hen draddodiad neu draddodiad tybiedig o'u dinistrio pan nad oes eu hangen mwyach. Yn bennaf, mae'n nodi'r opsiynau sydd bellach ar gael pan fo dymuniad i'w gwaredu.

## 1. Cyflwyniad

Ceir gwrthdaro yn y credoau a'r wybodaeth am yr hyn sy'n gymwys neu'n anghymwys i'w wneud â bedyddfeini neu allorau diangen. Mae llawer o bobl yn credu mai'r ffordd draddodiadol o waredu bedyddfaen ddiangen yw ei chladdu (yn gyfan neu wedi'i chwalu), naill ai o fewn yr eglwys (o dan y llawr) neu ym mynwent yr eglwys. Felly hefyd y mae allorau carreg segur wedi'u chwalu neu eu claddu, a byrddau allor pren wedi'u llosgi os nad oes eu hangen mwyach at eu diben gwreiddiol. Er mai mewn lleiafrif bach o fannau y defnyddiwyd y traddodiad o'u dinistrio, ni ellir cyfiawnhau trin eitemau artistig, sydd ag arwyddocâd hanesyddol fel hyn mwyach.

Gwelir bedyddfeini ac allorau fel rhannau allweddol o osodiadau a ffitiadau'r eglwys, ac yn elfennau sy'n cyfrannu at ei harwyddocâd a'i chymeriad cyffredinol, yn enwedig os ydynt yn rhan o gynllun gwreiddiol neu gynnar, neu o ddyluniad pensaernïol cynhwysfawr diweddarach. Felly, cânt eu gwarchod waeth a yw'r eglwys wedi'i rhestru ai peidio, a bydd hawleb yn ofynnol er mwyn penderfynu a ellir eu gwaredu.

Gall penderfyniadau ar waredu bedyddfeini ac allorau amrywio o un achos i'r llall, ac yn Lloegr mae nifer o geisiadau gwaredu bedyddfeini wedi bod yn destun dyfarniadau llys consistori yn ddiweddar. Felly, mae'n bwysig bod cyngor clir ar gael ar gyfer plwyfi, clerigion a Phwyllgorau wrth ystyried gwaredu bedyddfeini ac allorau diangen.

## 2. Arwyddocâd Hanesyddol

### a) **Bedyddfeini**

Yn draddodiadol, lleolwyd y fedyddfaen ym mhen gorllewinol yr eglwys, lle'r oedd mynedfa'r eglwys yn fwyaf tebygol o fod, ac yn symbol o fynedfa'r enaid Cristnogol i'r eglwys. Yn aml, hon yw'r elfen hynaf o'r eglwys sydd wedi goroesi, ac mae llawer o enghreifftiau o'r cyfnod cyn y Diwygiad yn parhau mewn adeiladau Fictoraidd a ailgodwyd.

Ers hynny, mae nifer o fasnau'r bedyddfeini wedi eu claddu mewn eglwysi, weithiau o dan fedyddfaen fwy newydd neu yn rhywle arall o dan y llawr, ym mynwent yr eglwys, neu (yn llai ffodus) yng ngardd y ficerdy[1]. Weithiau, bydd hen fasn y fedyddfaen yn cael ei droi wyneb i waered a'i ddefnyddio fel sylfaen i'r fedyddfaen newydd sefyll arni. Er y gall yr arfer o gladdu

[1] Fons et origo: marwolaeth, claddedigaeth ac atgyfodiad symbolaidd bedyddfeini Seisnig gan David Stocker. *Church Archaeology* (Cyfrol 1 tt17-25) 1997.

basn y fedyddfaen ymddangos yn rhyfedd i bobl heddiw, roedd bedydd yn yr eglwys ganoloesol yn symbol o enedigaeth a marwolaeth. Roedd claddu'r hen fedyddfaen yn dynodi ei "marwolaeth" (h.y. diwedd ei swyddogaeth mewn bywyd) ac yn arwydd o barch yr eglwyswyr at wrthrych cysegredig.

Nid yw'n glir a oedd bedyddfeini hynafol yn cael eu cysegru'n unigol yn y gorffennol, gan y byddai'r rhan fwyaf wedi cael eu bendithio fel rhan o wasanaeth cysegru’r eglwys ei hun, ynghyd â gosodiadau a ffitiadau eraill. Byddai’r dŵr yn y fedyddfaen bob amser yn cael ei fendithio, gan roi arwyddocâd arbennig i'r basn, ac arweiniodd hyn at yr arfer o orchuddio'r ffont â chaead (a fyddai weithiau dan glo) rhag i’r dŵr gael ei halogi neu ei ddwyn. Mae rhai o’r basnau hŷn yn gorwedd ar bedestal newydd, sy’n awgrymu y rhoddir mwy o barch i’r basn na'r pedestal, o bosibl.

Yn Lloegr, mae rhai basnau wedi ymgorffori neu ailddefnyddio arteffactau ac elfennau cynharach Eingl-Sacsonaidd a Rhufeinig, dull pragmatig na nodwyd hyd yma yng Nghymru. Gydag eithriadau prin iawn, megis Patrisio (Sir Frycheiniog), mae'r basnau bedydd cynharaf sydd wedi goroesi yng Nghymru yn dyddio o gyfnod y Normaniaid. Mae enghraifft i'w gweld mewn Eglwys o ddiwedd oes Fictoria yn Sant Llawddog, Cenarth lle gwelir basn a bedyddfaen o'r 12fed ganrif, y dywedir iddi ddod o'r eglwys yn Llandysiliogogo. Mae'n debyg i’r basn gael ei ddarganfod yn gwneud ei ddyletswydd fel cafn moch ar fuarth fferm cyn cael ei roi ar goes a sylfaen gerfiedig gywrain.[2]

**b) Allorau**

Defnyddir yr allor i ddathlu’r Cymun Bendigaid ac fel arfer mae wedi'i lleoli mewn safle uchel yn y gysegrfa neu rhwng yr eglwys a'r gangell. Gwelir allorau ychwanegol hefyd mewn capeli ystlys, yn yr eiliau neu’r transeptau. Allorau o garreg fyddent yn wreiddiol tan y Diwygiad yn yr 16eg ganrif, pan gawsant eu tynnu a'u disodli gan fyrddau cymun pren. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o gynnwys arall yr eglwys, roeddent bob amser yn cael eu cysegru'n unigol, a byddai gwasanaeth o ddadgysegru yn cael ei gynnal cyn eu gwaredu.

Torrwyd rhai allorau cerrig a'u claddu yn yr eglwys neu'r fynwent yn ystod y Diwygiad. Ymgorfforwyd rhai hyd yn oed yng ngwead adeiladu'r eglwys; credir bod un enghraifft o'r fath yn bodoli yn Eglwys Dewi Sant, Trelales (ger Pen-y-bont ar Ogwr). Yma, darganfuwyd rhan o fwrdd allor carreg gyda phatrwm diemwnt a thair croes gysegru, ym mur gogleddol y gangell ym 1958. Deellir ei bod yn rhan o hen allor uchel Eglwys Llangewydd.

Mae enghreifftiau o slabiau allor cerrig wedi eu claddu wedi eu darganfod wrth gloddio beddau a gwneud gwaith mewn mynwentydd eglwys ac maent wedi cael eu hailddefnyddio unwaith eto. Yn ne Cymru, mae'r rhain yn cynnwys Ewenni, Mawdlam, Merthyr Dyfan, Drenewydd yn Notais, Y Pîl, Sain Dunwyd, Y Wig, Cemais Comawndwr, Llandenni, Llanfihangel Crucornau, Llandeilo Bertholau, Llanfihangel-y-fedw, Hen Eglwys Penallt, Rogiet, Ynysgynwraidd, a Sant Pierre.[3] Yn rhyfeddol, ym Mhont-faen anghysbell (Sir Benfro), roedd tair allor garreg yn dal i fod yn eu lle ym 1861, ond cawsant eu symud pan atgyweiriwyd yr adeilad maes o law.[4]

[2] Gwybodaeth gan Eglwys Sant Llawddog yn HER rhanbarthol (a gynhelir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed)
[3] Gwybodaeth gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwent a Morgannwg (ymholiad e-bost 27 Ionawr 2020)
[4] The Buildings of Wales: Pembrokeshire (Canllaw Pensaernïol Pevsner)

## 3. Gwarchodaeth Statudol

Mae'r holl osodiadau a ffitiadau mewn eglwys yn cael eu hystyried yn rhannau annatod o'r adeilad ac felly mae angen hawleb i'w gwaredu. Bydd unrhyw gais hawleb i waredu bedyddfaen neu allor yn cael ei hadolygu yn y ffordd arferol mewn cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol a gofynnir i Gorff y Cynrychiolwyr wneud sylwadau arni (fel perchnogion yr eglwys a'i chynnwys). Gall y Pwyllgor neu Gorff y Cynrychiolwyr hefyd ddewis ymgynghori â'r Comisiwn Cadeirlannau ac Eglwysi. Dylid anfon gwybodaeth am y fedyddfaen neu'r allor gyda'r cais a rhaid cynnwys ffotograffau a'r lleoliad o fewn yr eglwys, yr hanes (er enghraifft, a gafodd ei chreu gan grefftwr neu bensaer adnabyddus, ai rhodd gan deulu lleol ydyw, a gafodd ei symud o eglwys arall, a yw wedi ei gosod mewn man a ddyluniwyd yn arbennig, ac ati) a'i arwyddocâd.

Os yw'r eglwys yn adeilad rhestredig, bydd Ysgrifennydd y Pwyllgor yn rhoi gwybod i wahanol ymgyngoreion statudol am gais yr hawleb ac yn eu gwahodd i ymateb gydag unrhyw sylwadau a allai fod ganddynt. Gan ddibynnu ar arwyddocâd hanesyddol neu artistig yr eitemau, gall yr ymgyngoreion statudol gynnwys yr Awdurdod Cynllunio Lleol, Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Chymdeithasau Amwynder amrywiol (e.e. Y Gymdeithas Fictoraidd, Grŵp Sioraidd, ac ati). Bydd eu hymatebion yn rhan o'r ddogfennaeth ategol ar gyfer cais yr hawleb ac yn gymorth i'r Canghellor gyrraedd ei benderfyniad.

Weithiau, gellir ystyried bod cynnwys yr eglwys mor bwysig fel y gallent fod yn drysorau eglwysig. O ganlyniad, rhaid ystyried eu gwaredu'n ofalus a gofyn am gyngor arbenigol ynghylch eu gwaredu. Mae rhagor o wybodaeth am hyn, a llawer o eitemau eraill sy'n ymwneud â chynnwys eglwysi, i'w gweld yn y nodyn *Cynnwys Eglwysi: Polisi a Chanllawiau yr Eglwys yng Nghymru*. [5].

## 4. Gwaredu

Mae cred, bron yn sicr o fod yn hirsefydlog, na ellir defnyddio bedyddfaen at unrhyw bwrpas arall nag fel basn ar gyfer dŵr bedydd, a phan na fydd ei angen mwyach i'r diben hwn, rhaid ei roi o'r neilltu – naill ai trwy ei gladdu neu ei chwalu. Nid yw'r naill ffordd na'r llall yn cael ei hargymell gan Gorff y Cynrychiolwyr.

O ystyried ei natur sanctaidd, bydd gwaredu bedyddfaen neu allor bob amser yn fwy emosiynol na gwaredu cynnwys eglwysig arall. Felly, mae'n hanfodol bwysig cynnal asesiad o'u harwyddocâd ***cyn*** ystyried opsiynau gwaredu (e.e. adleoli i eglwys arall, gwerthu, claddu, ac ati). Rhaid cyfiawnhau penderfyniad y dull gwaredu yn y cais hawleb ac efallai y bydd angen caniatâd yr Esgob mewn achosion prin iawn lle bydd bwriad i ddinistrio. Os oes arwyddocâd hanesyddol i'r eitem, bydd angen paratoi cofnod ysgrifenedig a ffotograffig cyn ei waredu. Yna, bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (HER) perthnasol sy'n cael ei weinyddu gan Ymddiriedolaethau Archaeolegol rhanbarthol Cymru.

Bydd Canghellor yr Esgobaeth bob amser yn rhoi sylw i arwyddocâd sacramentaidd bedyddfaen wrth benderfynu ar unrhyw gais hawleb i'w waredu; mae'r un peth yn wir am unrhyw geisiadau o waredu allorau a phlât cymun.

---

[5] Gellir cael copi o'r tudalennau Eiddo ar wefan yr Eglwys yng Nghymru yn: https://www.churchinwales.org.uk/cy/ neu drwy e-bostio property@churchinwales.org.uk.

**a) Asesu arwyddocâd**

Gall bedyddfeini ac allorau fod yn bwysig yn sgil eu harwyddocâd artistig, hanesyddol neu litwrgaidd. Felly, mae'n bwysig ymchwilio i'r eitem dan sylw. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oedd yn rhan o gynllun gwreiddiol neu gynnar yr eglwys, lle'r oedd y gosodiadau mewnol a'r ffitiadau yn ategu estheteg ddylunio gyffredinol yr adeilad. Dylid defnyddio unrhyw ganfyddiadau i gefnogi cais yr hawleb.

Ystyriwch y ffynonellau canlynol wrth ymchwilio i'ch bedyddfaen neu'ch allor (gweler y dolenni yn yr Atodiad):

- Os yw eich eglwys yn adeilad rhestredig, a yw'r allor neu'r fedyddfaen yn cael eu disgrifio yn nisgrifiad yr adeilad rhestredig
- A yw'r allor neu'r fedyddfaen yn cael eu disgrifio yng nghofnod HER eich eglwys
- Os yw eich eglwys yn dyddio o'r Oesoedd Canol, a oes ganddi gofnod yn arolwg Eglwysi Hanesyddol Cymru? Gall hefyd gynnwys disgrifiad o'r fedyddfaen neu'r allor.
- Os oes gan eich eglwys gofnod yng nghyfrol berthnasol *Building of Wales* Pevsner, sy'n disgrifio'r fedyddfaen neu'r allor hefyd
- Os oes gan eich Pwyllgor Ymgynghorol aelod sy'n arbenigwr ar dreftadaeth, gofynnwch am gyngor.
- Os oes gan eich eglwys arweinlyfr, gwiriwch am unrhyw ddisgrifiadau o'r fedyddfaen neu'r allor.

**b) Opsiynau wrth waredu**

Mae rhai opsiynau gwaredu yn well nag eraill! Bydd pa opsiwn y byddwch yn ei ddewis yn dibynnu ar arwyddocâd eich bedyddfaen neu'ch allor a'r rheswm dros geisio eu gwaredu: yn fwyaf amlwg a ydynt yn cael eu gwaredu oherwydd bod yr eglwys wedi cau. Mae'r holl osodiadau a ffitiadau mewn eglwys yn eiddo i Gorff y Cynrychiolwyr a bydd angen hawleb i'w gwaredu, hyd yn oed os yw'r eitemau dan sylw yn cael eu hadleoli o fewn yr eglwys neu eu cludo i eglwys arall.

Er y dylid cymryd pob gofal i sicrhau bod cartref neu ddefnydd da a phriodol i'w gael ar gyfer bedyddfeini ac allorau diangen, ni ellir gwarantu hyn bob amser. Yn achos gwerthu'r eitemau hyn, efallai y bydd plwyfi yn dymuno cael sicrwydd gan y perchennog newydd y byddant yn cael eu trin â'r parch y maent yn ei haeddu. Fodd bynnag, rhaid cofio, unwaith y bydd eitemau o'r fath yn cael eu tynnu o'u lleoliad eglwysig, eu bod i bob pwrpas yn dod yn wrthrychau seciwlar, ac mae bron yn sicr na fyddant yn cael eu defnyddio at y diben gwreiddiol.

**i) Adleoli o fewn yr eglwys bresennol**

Dyma'r dewis dymunol bob amser ar gyfer unrhyw fedyddfaen neu allor, yn enwedig os cawsant eu comisiynu fel rhan o gynllun cyffredinol. Mae'r cyd-destun gwreiddiol a'r cysylltiad hanesyddol â'r eglwys yn parhau.

**ii) Adleoli i eglwys newydd**

Er y byddai hyn, gobeithio, yn sicrhau bod y fedyddfaen neu'r allor yn parhau i gael eu defnyddio, efallai na fydd o reidrwydd yn gweddu i estheteg yr amgylchedd newydd. Byddai angen cofnodi ei darddiad (o ble y daeth) hefyd yn rhestr eiddo'r eglwys.

**iii) Adleoli i amgueddfa**

Os gwelir bod gan fedyddfaen neu allor arwyddocâd pwysig – yn drysor eglwysig – ac y bydd gwaredu'r eitemau yn golled fawr yn lleol neu'n genedlaethol, yna gellir ystyried eu cyflwyno

fel cymynrodd i amgueddfa. Cysylltwch ag Ysgrifennydd eich Pwyllgor Ymgynghorol neu Gorff y Cynrychiolwyr am gyngor.

**iv) Storio**
Os na ellir dod o hyd i gartref newydd ar unwaith ar gyfer bedyddfaen neu allor ddiangen, efallai y byddai'n dderbyniol eu cadw mewn storfa. Rhaid i hyn fod yn ddiogel ac yn sych ac ar dymheredd na fydd yn diraddio'r eitem.

**v) Gwerthu**
Rhaid gallu llwyr gyfiawnhau gwerthu bedyddfaen neu allor bob tro, yn enwedig os oes ganddynt arwyddocâd arbennig. Os gwelir bod eitem yn drysor eglwysig, gellir comisiynu adroddiad annibynnol. Rhaid i unrhyw gais hawleb a gyflwynir mewn perthynas â gwerthu gydymffurfio bob tro â nodyn *Cynnwys Eglwysi: Polisi a Chanllawiau yr Eglwys yng Nghymru*.

**vi) Claddu Bedyddfaen**
Bydd Corff y Cynrychiolwyr ond yn ystyried yr opsiwn hwn dan amgylchiadau eithriadol.

**vii) Dinistrio**
Os yw plwyfi'n teimlo nad oes yr un o'r opsiynau blaenorol ar gyfer gwaredu yn ddilys a bod dymuniad i'r fedyddfaen neu'r allor gael eu dinistrio, yna mae'n rhaid iddynt ofyn am gymeradwyaeth yr Esgob, yn ogystal â chael hawleb. Fodd bynnag, rhaid cofio na fydd y cam gweithredu hwn yn dderbyniol ar gyfer eitemau sydd o arwyddocâd hanesyddol. Bydd angen gwaredu unrhyw eitem yn y categori hwn drwy adleoli, storio neu werthu.

**viii) Cofnod**
Os mabwysiadir un o'r opsiynau rhwng ii a vii, bydd angen paratoi arolwg ac adroddiad ffotograffig llawn (gan gynnwys manylion manwl gywir y lleoliad newydd) a'u cyflwyno i'r HER rhanbarthol.

## Crynodeb
Os nad ydych yn siŵr beth i'w wneud â bedyddfaen neu allor ddiangen, siaradwch ag ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghori yn y lle cyntaf. Bydd yn gallu cynghori ar y dogfennau ategol angenrheidiol i gyd-fynd â'ch cais hawleb. Ar gyfer eitemau hynod arwyddocaol, megis trysorau eglwysig, gall y Pwyllgor ofyn barn arbenigol annibynnol (e.e. gan y Comisiwn Cadeirlannau ac Eglwysi). Os credir bod unrhyw eitemau o'r fath yn ddiwylliannol bwysig i genedl y Cymru, dylid ystyried eu lleoli mewn amgueddfa.

Tina Andrew
Rheolwr Cadwraeth a Chymorth Eglwysi
Yr Eglwys yng Nghymru
3 Mawrth 2020 v1.2

# ATODIAD

**Gwefan Cymru Hanesyddol**
Un o'r adnoddau gorau ar-lein yw gwefan Cymru Hanesyddol lle gallwch gael mynediad at Gofnodion Adeiladau Rhestredig, Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol, Cofnodion Henebion Cenedlaethol, Cofnodion Henebion Cofrestredig a chasgliad Archaeoleg yr Amgueddfa Genedlaethol. Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

**Cyfrolau Sir "The Buildings of Wales " ("Pevsners")**
Mae saith cyfrol ranbarthol o lyfrau Pevsner *Buildings of Wales* bellach ar gael. Maent yn cwmpasu'r Dalaith gyfan ac fe'u cyhoeddir gan Yale University Press. Bydd y rhan fwyaf o lyfrgelloedd lleol yn cadw'r gyfrol sy'n berthnasol i'w rhanbarth nhw. Gellir eu prynu'n uniongyrchol hefyd o siopau llyfrau lleol neu ar-lein (e.e. o Amazon).

**Arolwg Eglwysi Hanesyddol Cymru (Welsh Historic Churches Survey**)
Arolygwyd pob eglwys a oedd yn dyddio o'r 19eg ganrif yng Nghymru gan bedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru ar ddiwedd y 1990au, gyda phob un yn cwmpasu ei rhanbarth ei hun. Mae argaeledd data'r arolwg ar-lein yn amrywio o'r naill ymddiriedolaeth i'r llall, er y bydd pob un yn rhoi'r wybodaeth i chi os byddwch yn cysylltu â nhw. Cliciwch ar y dolenni isod i fynd i wefannau'r Ymddiriedolaeth:

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent

**Gwefan Archwilio**
Gellir cael mynediad i bob HERs trwy wefan Cymru Hanesyddol, er bod modd cael mynediad atynt hefyd ar wefan Archwilio. Y fantais o ddefnyddio Archwilio yn uniongyrchol yw y gallwch chwilio fesul ardal ddaearyddol, awdurdod lleol, cyfnod hanesyddol a defnyddio testun rhydd. Gallwch hefyd weld a yw eich eglwys wedi'i lleoli mewn ardal gadwraeth, parc a gardd ddynodedig, safle treftadaeth y byd a thirwedd hanesyddol, trwy leoli ei HER ar fap. Mae hyn yn ddefnyddiol os ydych yn cynllunio unrhyw waith allanol yn yr ardaloedd hanesyddol hyn. Cliciwch yma i fynd i'r wefan.